Dyddiad cyhoeddi: 11 Mehefin 2018

Ardal Adfer Coedwig Naturiol yn Llwyncelyn Porth

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 07 Mehefin 2018 pan ofynnoch am wybodaeth ynglŷn â'r Ardal Adfer Coedwig Naturiol yn Llwyncelyn, Porth.

Rydym wedi edrych ar ein cofnodion a gallaf roi gwybod i chi nad ydym yn cadw unrhyw wybodaeth mewn perthynas â'r cynllun hwn.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach, neu gwestiynau am sut yr wyf wedi ymdrin â'ch cais, mae pob croeso i chi gysylltu â fi.

Yn gywir,

Ymateb Pellach: 22 Mehefin 2018

Diolch am eich e-bost ar 12 Mehefin 2018.

Fel y dywedais yn fy e-bost dyddiedig 11 Mehefin 2018, nid ydym yn cadw gwybodaeth sy'n cyd-fynd yn benodol â disgrifiad y wybodaeth y gofynnwyd amdani yn eich e-bost gwreiddiol.

Fodd bynnag, rydych wedi darparu rhagor o wybodaeth yr wyf yn ei dehongli i olygu eich bod yn chwilio am adroddiadau sy'n ystyried gwerth am arian y cynlluniau sy'n ymwneud ag adferiad naturiol coedwigoedd yn Llwyncelyn, Porth. Nid ydym yn dal gwybodaeth benodol mewn perthynas â chynnig sy'n mynd yn ôl i'r 1990au cynnar (ni sefydlwyd Swyddfa Archwilio Cymru tan 2005) ond rydym wedi cyhoeddi adroddiadau ar y cynllun Tir Gofal a'r cynllun diweddarach, Glastir, a allai fod o ddiddordeb. Atodaf gopïau o'r adroddiadau hyn ac rwyf wedi cynnwys y dolenni we isod lle mae'r adroddiadau ar gael.

- Adroddiad Tir Gofal, Tachwedd 2007: https://www.webarchive.org.uk/wayback/archive/20120405010520mp_/http:/www.wao.gov.uk/assets/welshdocuments/Tir_Gofal_cym.pdf
- Adroddiad Glastir, Medi 2014 (disodlodd cynllun Glastir bedwar cynllun, gan gynnwys Tir Gofal): http://www.audit.wales/cy/system/files/publications/Glastir_Welsh_2014.pdf

Gwnaethom gynnal gwaith hefyd mewn perthynas â Chomisiwn Coedwigaeth Cymru a allai fod o ddiddordeb. Atodaf gopïau o'r adroddiadau hyn ac rwyf wedi cynnwys y dolenni we isod lle mae'r adroddiadau ar gael.

- Gweithrediadau Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Tachwedd 2008: https://www.webarchive.org.uk/wayback/archive/20120405012519mp_/http:/www.wao.gov.uk/assets/welshdocuments/Forestry_Commission_Wales_cym.pdf
- Adroddiad Dilynol Gweithrediadau Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Ionawr 2013: http://www.audit.wales/cy/system/files/publications/Operations_of_the_Forestry_Commission_Wales_Follow-up_Report_Welsh_2013.pdf

Efallai yr hoffech gysylltu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf neu Lywodraeth Cymru yn uniongyrchol eich hun ac mae gwybodaeth am sut mae gwneud hyn ar gael ar eu gwefannau ar: https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Council/DataProtectionandFreedomofInformation/FreedomofInformationAct.aspx a https://gov.wales/about/open-government/freedom-of-information/requesting-information-from-welsh-government/?skip=1&lang=cy

Gobeithiaf fod y wybodaeth hon o ddiddordeb i chi.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach, neu gwestiynau am sut yr wyf wedi ymdrin â'ch cais, mae pob croeso i chi gysylltu â fi.

Yn gywir